# PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023 am 10.00 am.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol canlynol yn bresennol:-**

Y Cynghorydd B Harris (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings   Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd D Grehan

### Swyddogion oedd yn bresennol

Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms A Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol

### Ymddiheuriadu am absenoldeb

Y Cynghorydd R Lewis

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol y Cyngor. Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd a'r Prif Lyfrgellydd.

**2 Datgan Buddiant**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda: 'Rhag ofn y bydd unrhyw gyfeiriad at YMa, Pontypridd, neu drafodaeth amdano, rwy'n gyn-ymddiriedolwr.'

**3 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023 yn rhai cywir.

**4 Rhaglen Waith y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol 2023-2024**

Cyflwynodd Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol Rhaglen Waith (Ddrafft) y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24.

Nododd y Swyddog fod y rhaglen waith ddrafft yn ddogfen hyblyg a byddai modd ei diwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau i anghenion busnes yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r swyddog am yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD:**

1. Cyflwyno sylwadau a chymeradwyo'r rhaglen waith ddrafft, gan nodi y bydd modd ei diwygio i adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau sy'n newid yn ystod y flwyddyn.

**5 Theatrau Rhondda Cynon Taf - Cynlluniau Lleihau Carbon**

Rhannodd y Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant y newyddion diweddaraf â'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol am gynlluniau lleihau carbon Theatrau RhCT. Roedd hyn yn cynnwys manylion am sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni'r Strategaeth Hinsawdd Ystyriol 2022-2025.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, a hithau'n Aelod o Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd, ei bod hi'n falch o weld bod staff yn nodi cyfleoedd lleihau carbon posibl yn ein theatrau, gan rannu'r dulliau cadarnhaol o weithio gyda grwpiau sy'n defnyddio'r theatrau, megis defnyddio conffeti bioddiraddadwy. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth ag Adran Eiddo'r Cyngor, sydd wedi arwain at arbedion ariannol a charbon.

Roedd un Aelod wedi siarad am yr heriau ariannol y mae pob Awdurdod Lleol yn eu hwynebu, gan adleisio'r sylwadau blaenorol am yr arbedion a nodwyd. Gan gyfeirio at Adran 4.7 o'r adroddiad, holodd yr Aelod a oes unrhyw gyfleoedd cyllid ar gael ar gael i fwrw ymlaen ag uchelgeisiau'r Llyfr Gwyrdd ar gyfer y Theatrau. Roedd y Rheolwr wedi cydnabod bod sicrhau cynaliadwyedd yn yr adeiladau hanesyddol yma'n cyflwyno heriau ym mhob rhan o sector y Celfyddydau a rhoddodd wybod bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal arolwg o'r anghenion cyfalaf ym mhob rhan o'r sector yn ddiweddar. Mae'n bosibl y bydd cyllid ar gael o ganlyniad i hynny, os yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hyn yn addas.

Roedd un Aelod yn falch o nodi'r arbedion ynni blynyddol amcangyfrifedig ar gyfer y Cyngor a'r blaned. Gan gyfeirio at yr ymchwil sy'n cael ei drafod yn Adran 4, holodd yr Aelod p'un a oedd y gwaith yma wedi'i gynnal gan RCT neu gorff arall. Rhoddodd y Rheolwr wybod bod y gwaith ymchwil wedi'i gynnal gan y sector, ni chafodd y gwaith ei gomisiynu gan RCT.

Roedd y Cadeirydd wedi cydnabod bod Cymru wedi datgan argyfyngau Hinsawdd a Natur, ac roedd y Cadeirydd o'r farn bod yr adroddiad yn enghraifft gadarnhaol o sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i chwarae'i ran wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau yma.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddog am yr adroddiad a

**PHENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol:

1. Trafod cynnwys yr adroddiad a chyflwyno sylwadau am yr wybodaeth sydd wedi'i darparu.

**6 Y Rhaglen Gynyrchiadau a Chyd-gynyrchiadau**

Rhannodd Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant y newyddion diweddaraf â'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol am Raglen Gynyrchiadau a Chyd-gynyrchiadau'r Gwasanaeth Celfyddydau.

Tynnodd y Rheolwr sylw'r Aelodau at Adran 5 yn yr adroddiad, sy'n darparu trosolwg o bob un o'r cynyrchiadau a'r cyd-gynyrchiadau canlynol:

- Turning the Wheel - cyd-gynhyrchiad gan Theatrau RhCT a'r ysgrifennydd a chynhyrchydd, Keiran Bailey;
- Knuckles - cyd-gynhyrchiad gan Theatrau RhCT a Gurnwah Productions;
- Ink'd - cyd-gynhyrchiad gan Theatrau RhCT a Gurnwah Productions;
- Sue (the Hippopotamus Who Doesn't Identify as a Hippopotamus) - cynhyrchiad gan Theatrau RhCT, wedi'i ddatblygu gan drigolion creadigol, Menna Rogers a Jemima Nicholas;
- Pantomeim RhCT - cynhyrchiad gan Theatrau RhCT wedi'i gyfarwyddo gan Richard Tunley;
- Carwyn - cyd-gynhyrchiad gyda Gareth Bale ac Owen Thomas, ysgrifenwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd;
- No Man's Land - cyd-gynhyrchiad gan Theatrau RhCT a'r cynhyrchydd lleol, Kyle Stead; a
- Gen Z Fest - wedi'i gynhyrchu gan Kyle Stead, gyda chymorth Theatrau RhCT.

Roedd Aelod yn edrych ymlaen at weld y cynyrchiadau yma yn y dyfodol. Nododd Aelod mai un o amcanion y gwasanaeth yw sicrhau bod *achlysuron a gweithgareddau Cymraeg yn llunio rhan annatod o'n rhaglen ar gyfer y celfyddydau* a holodd sawl cynhyrchiad sydd wedi'u nodi sydd ar gael yn Gymraeg, gofynnodd am wybodaeth ynghylch faint o arian sy'n cael ei wario ar ddatblygu artistiaid Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.

Rhoddodd y Swyddog wybod bod o leiaf 2 o'r cynyrchiadau uchod yn cynnwys elfen o'r Gymraeg, boed hynny'n brosiect Cymraeg neu brosiect sy'n mabwysiadu dull dwyieithog. O ran gwariant, rhoddodd y swyddog wybod nad oedd canran uchel yn cael ei wario ar gynyrchiadau Cymraeg, yn rhannol o ganlyniad i argaeledd y cynnyrch sy'n addas ar gyfer y lleoliad a'r cynulleidfaoedd. Siaradodd y Swyddog yn gadarnhaol am gynhyrchiad *'Shirley Valentine'* a gafodd ei gyflwyno yn Gymraeg yn Theatr y Parc a'r Dâr y llynedd ond pwysleisiodd fod y sector gyfan wedi sylweddoli bod angen i raglenni Saesneg a Chymraeg fod yn berthnasol i'r gynulleidfa. Siaradodd y Swyddog yn gadarnhaol am Ganolfan Garth Olwg, lle mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen yn cael ei darparu'n Gymraeg, mae hyn yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth dyfu'r gynulleidfa yn y lleoliad yma ac ymgysylltu â rhaglenni Cymraeg. Esboniwyd mai'r uchelgais yw cynyddu nifer y cynyrchiadau Cymraeg yn y rhaglen wrth i ni baratoi ar gyfer Eisteddfod 2024. Nodwyd ei bod hi'n bosibl y bydd gwaddol yr Eisteddfod yn arwain at gynnydd yn nifer y rhaglenni Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.

Roedd yr Aelod wedi diolch i'r Swyddog am yr ymateb a holodd pa waith sy'n cael ei wneud gyda phobl ifainc drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn dod â'r bobl yma ynghyd i ddatblygu gwaith. Roedd y Swyddog wedi cydnabod bod cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith a datblygu gwaith gyda phobl ifainc, a chyfeiriodd at achlysur '*Make It!'* a gafodd ei gynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr yn ddiweddar. Roedd y Swyddog wedi nodi ei bod hi'n galonogol gweld nifer o'r bobl ifainc oedd wedi cymryd rhan yn cynnwys y Gymraeg yn rhan o'r cynhyrchiad ac yn defnyddio'r ddwy iaith, a chafodd hyn ei groesawu gan y gynulleidfa.

Ychwanegodd Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol fod nifer o siaradwyr Cymraeg Carfan y Celfyddydau a'r Diwydiannau Digidol yn gweithio fel mentoriaid ac yn arwain gweithdai er mwyn hyrwyddo cynyrchiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Siaradodd y Swyddog yn gadarnhaol am y gweithdai cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal ar gyfer cantorion a chyfansoddwyr ifainc, esboniodd fod un o'r cantorion/cyfansoddwyr ifainc yn y garfan wedi cael ei chefnogi a'i hannog i fagu hyder wrth siarad Cymraeg fel bod modd iddi arwain sesiynau gyda phobl ifainc.

Roedd yr Aelod wedi cydnabod bod y gwasanaeth wedi siarad am Eisteddfod 2024 ond nododd nad oedd unrhyw gynyrchiadau Cymraeg wedi'u cynnwys yn y rhaglen, a holodd a oedd unrhyw amcanion penodol wedi'u pennu ar gyfer y gwasanaeth wrth i ni agosáu at yr Eisteddfod. Rhoddodd Pennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd wybod bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Eisteddfod ar hyn o bryd mewn perthynas â datblygu prosiect, naill mewn partneriaeth â'r Eisteddfod neu brosiect RhCT. Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau fod arian wedi'i neilltuo i sicrhau y bydd prosiect yn cael ei gynnwys yn rhan o'r rhaglen o achlysuron. Bydd y prosiect yma'n cael ei gynnal cyn neu ar ôl Eisteddfod 2024, yn rhan o waddol yr Eisteddfod.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yn gadarnhaol am yr adroddiad, ac roedd yr Aelod o'r farn bod modd gweld gweledigaeth y Gwasanaeth Celfyddydau, sydd wedi'i nodi yn Adran 4.2 o'r adroddiad, yn barod wrth ymweld â'r Theatrau. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am yr argyfwng costau byw ac roedd hi'n falch o weld y bydd gan drigolion gyfle i weld pantomeim o'r radd flaenaf am bris fforddiadwy.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar y cyfle i ganmol y gwasanaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl o bob oed o ganlyniad i'w raglen amrywiol.

Roedd Aelod arall wedi ailadrodd y sylwadau blaenorol mewn perthynas â'r llwybrau sydd ar gael i bobl leol. Aeth ati i sôn am unigolyn a oedd wedi perfformio ar lwyfan Theatr y Parc a'r Dâr ac yna yng Ngŵyl Ymylol Caeredin.

Gan gyfeirio at Adran 4.2 o'r adroddiad ac amcan 2 o Gynllun Busnes y Gwasanaeth Celfyddydau ar gyfer 2024-2027: '*Byddwn ni'n llunio cynllun ymgysylltu â'r gymuned sy'n manteisio ar yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'r rhaglen o drafodaethau gyda'r gymuned, ein gwaith yn rhan o'r Rhaglen Cynllunio Gwerth i'r Cyhoedd'*, holodd yr Aelod sut y bydd y gymuned yn dod at ei gilydd yn rhan o un cynllun strategol. Rhoddodd Pennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd wybod bod y Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned wedi deillio o'r gwaith sydd wedi'i gynnal gyda'r gymuned, a bydd y gwasanaeth yn parhau gyda'i waith. Rhoddodd y Swyddog wybod am Grŵp Partneriaeth Strategol Pontypridd Creadigol, sy'n cynnwys aelodau o sefydliadau diwylliannol ym Mhontypridd; a grŵp sydd newydd ei sefydlu yn Nhreorci. Esboniodd y

byddai modd i'r grwpiau yma weithio gyda'i gilydd ac ymgysylltu â chymunedau, gan ganolbwyntio'n benodol ar achlysuron ar gyfer Eisteddfod 2024. Rhoddodd y Swyddog wybod y byddai'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn a ddysgwyd gan y grwpiau uchod a thrafodaethau â'r gymuned er mwyn cynnal gwaith pellach ledled y Fwrdeistref Sirol. Esboniodd y byddai'r gwasanaeth yn gweithio gyda sefydliadau yn y gymuned i ddysgu o'u gwaith nhw a sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn cael ei chynrychioli.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ganmol yr adroddiad ac roedd e'n falch o'r cyfleoedd diwylliannol sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol:

2. Trafod cynnwys yr adroddiad a chyflwyno sylwadau am yr wybodaeth sydd wedi'i darparu.

**7 Materion Brys**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Reolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol, ar ran Aelodau'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol, am ei gwaith hi gan ddymuno pob dymuniad da iddi wrth iddi ymddeol o'r Awdurdod Lleol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.54 am**

**Y Cynghorydd B Harris**
**Cadeirydd.**